Papur y Bwrdd

03 Ebrill 2014

Teitl y Papur	**Diweddariad ar Ynni Dŵr**
Cyfeirnod y Papur:	**NRW B O 24.14**
Noddwyd y Papur gan: **Awdur y Papur yw:**	Natalie Hall Ceri Davies

Pwrpas y Papur:	Rhoi gwybodaeth
Argymhelliad:	Yn dilyn eu penderfyniad yng Nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi '13, mae'r papur hwn yn darparu diweddariad i'r Bwrdd ar gynnydd ystod o gamau fydd yn sicrhau y gall Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni ei ddyletswyddau statudol a chefnogi cynlluniau ynni dŵr cynaliadwy yng Nghymru.
Penderfyniad sydd ei Angen:	Dim - briffio yn unig

Effaith: Dylid nodi – mae'n bosib nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Bydd y gyfres newydd o ganllawiau yn helpu datblygwyr ynni dŵr i ddatblygu cynlluniau cynaliadwy fydd yn cael eu dylunio a'u gweithredu mewn ffordd sy'n amddiffyn yr amgylchedd. **Effaith ar yr Economi**: Mae ein dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu y bydd y dull newydd o bosibl yn achosi i gyfanswm incwm y sector godi. Yn y cyfamser, rydym yn gweithio gyda'r sector i wella'r gronfa dystiolaeth economaidd. **Effaith ar y Gymuned**: Bydd gwell gwybodaeth gyhoeddus yn galluogi cymunedau i ddeall mwy am fuddion posibl datblygu ynni dŵr a'i effaith ar ddefnyddwyr dŵr eraill. **Effaith ar Wybodaeth**: Bydd tystiolaeth yn sylfaen i'n penderfyniadau a'n gweithredoedd. Mae gennym ymrwymiad ehangach i weithio gyda'r sector er mwyn cynyddu'n cronfa dystiolaeth ar y cyd ynglŷn ag ystod o ystyriaethau.

Mater

1. Gofynnir i'r Bwrdd nodi cynnydd o ran yr ystod o gamau fydd yn sicrhau y gall Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni ei ddyletswyddau statudol ac ymrwymiad y Bwrdd i gefnogi a hwyluso cynlluniau ynni dŵr cynaliadwy.

Crynodeb a Chefndir

2. Ar 4 Medi 2013 bu i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru gymeradwyo'r dull newydd o osod safonau llif ar gyfer trwyddedu tynnu dŵr gan ddefnyddio ynni dŵr, a chytunodd y dylai'r safonau newydd ddod i rym 12 wythnos ar ôl cyhoeddi'r canllawiau diwygiedig ar Ynni Dŵr.

3. Bu i'r Bwrdd hefyd gytuno ar ystod o gamau fydd yn sicrhau y gall Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni ei ddyletswyddau statudol a chefnogi cynlluniau ynni dŵr cynaliadwy yng Nghymru a gofynnodd hefyd i Gyfoeth Naturiol Cymru chwilio am gyfleoedd eraill i liflinio rheoleiddio ynni dŵr micro.

4. Mae'r nodyn sydd wedi'i atodi yn darparu diweddariad i'r Bwrdd ar y camau a gymerwyd hyd yma a'r hyn sy'n arfaethedig. Rydym yn hyderus y bydd y camau hyn yn helpu i gefnogi cynlluniau ynni dŵr ar raddfa ffermydd ac ar sail gymunedol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cefnogi drwy ei gynigion ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.

5. Efallai y bydd gan y Bwrdd ddiddordeb nodi ein bod wedi derbyn nifer sylweddol o geisiadau ffurfiol am drwyddedau ynni dŵr eleni. Rhwng Ebrill a diwedd Chwefror 2014 bu i ni dderbyn 154 o geisiadau am drwyddedau (ar gyfer 87 o gynlluniau ynni dŵr). Derbyniwyd 137 o'r ceisiadau hyn yn y cyfnod o 6 mis rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Hydref 2013. Mewn hanner yr amser, mae hyn fwy na chyfanswm y ceisiadau ffurfiol a dderbyniwyd yn y 12 mis blaenorol (102 o geisiadau rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mai 2013).

Diweddariad ar Ynni Dŵr i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

Beth ydym wedi ei gyflawni

Cyhoeddi Canllawiau Newydd ar Ynni Dŵr

Ar 7 Ionawr 2014 bu i ni gyhoeddi cyfres o Ganllawiau ar gyfer dylunwyr a datblygwyr cynlluniau ynni dŵr yn cynnwys canllawiau ar y dull newydd o ddyrannu dŵr. Bydd y dull newydd hwn, y gellir ei gymhwyso'n gyson i drwyddedu tynnu dŵr gan ddefnyddio ynni dŵr o gwmpas Cymru, yn dod i rym ar 1 Ebrill 2014.

Datblygwyd y canllawiau terfynol gan Gyfoeth Naturiol Cymru gan weithio mewn ysbryd o gydgynhyrchu ag aelodau o'n grŵp rhanddeiliaid ynni dŵr.

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi cyngor ar faint o ddŵr a ellir ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu trydan heb niweidio'r afon. Byddant yn gwneud datblygu cynlluniau ynni dŵr cynaliadwy yn symlach, gyda chymorth rhestr wirio asesu newydd fydd yn galluogi datblygwyr, yn ystod camau cyntaf datblygu prosiect, i ystyried faint o ddŵr allai fod ar gael mewn afonydd penodol cyn iddynt ystyried gwneud cais am y caniatâd angenrheidiol.

Bydd y gyfres o ganllawiau yn helpu datblygwyr ynni dŵr i ddatblygu cynlluniau cynaliadwy yn y mannau cywir fydd yn cael eu dylunio â'u gweithredu yn y ffordd gywir.

Grŵp Rhanddeiliaid Ynni Dŵr Cymru

Ym mis Medi 2012 bu i ni sefydlu grŵp Rhanddeiliaid Ynni Dŵr Cymru, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Gwybodaeth Strategaeth a Chynllunio. Mae'n cynnwys datblygwyr, grwpiau cymunedol, cynrychiolwyr o bysgodfeydd ac o faes ecoleg a'r Llywodraeth, ac fe'i sefydlwyd er mwyn cydweithio i helpu'r diwydiant yng Nghymru i ddatblygu cynaliadwyedd yn y tymor hir.

Effeithiau Cymdeithasol ac Economaidd Ynni Dŵr Cymunedol yng Nghymru

Rydym yn gweithio â datblygwr Buddiannau Cymunedol ac aelod o Grŵp Rhanddeiliaid Ynni Dŵr er mwyn cefnogi astudiaeth ymchwil gan Ysgol Fusnes Caerdydd ar Effeithiau Cymdeithasol ac Economaidd Ynni Dŵr Cymunedol yng Nghymru. Bydd y cydweithio hwn yn ein helpu i ddatblygu cronfa dystiolaeth gyffredin ynglŷn â buddion cymdeithasol ac economaidd ynni dŵr.

Sicrhau cysondeb wrth weithredu'r dull newydd

Wrth wrando ar adborth cwsmeriaid, rydym wedi cyflwyno nifer o gamau er mwyn delio â phryderon ynghylch cysondeb wrth weithredu'r dull a thystiolaeth amrywiol gan staff o gwmpas Cymru.

Rydym wedi hyfforddi dros 60 o aelodau staff mewn pedwar digwyddiad hyd yma er mwyn sicrhau cysondeb o ran deall a gweithredu ein dull diwygiedig. Daw'r staff yma o dimau gweithredol a thrwyddedu ac ystod o arbenigwyr yr ydym yn ymgynghori â hwy fel rhan o'r broses penderfynu ar drwyddedau.

Rydym hefyd wedi sefydlu panel Ynni Dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod y dull yn cael ei weithredu'n gyson o gwmpas Cymru. Yn ystod Ionawr a Chwefror 2014 bu i'r panel gyfarfod dair gwaith i ystyried a chynghori ar saith o gynlluniau yn ystod cam cyn ymgeisio'r datblygiadau, ac mae ymatebion wedi'u darparu i'r cwsmeriaid. Bu i'r Panel gyfarfod eto ar 6 Mawrth ac yna bydd yn cyfarfod yn wythnosol. Rydym hefyd yn gweithio gyda chwsmeriaid, fydd efallai yn derbyn mwy o ddŵr ac yn cynhyrchu mwy o drydan o dan y dull newydd ac sy'n ystyried ymgeisio am amrywiadau i’w trwyddedau tynnu dŵr.

Adolygiad o effeithlonrwydd trwyddedu

Rydym wedi cychwyn adolygu proses drwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn chwilio am ffyrdd o'i gwneud yn gyflymach i ddatblygwyr gael caniatâd ar gyfer cynlluniau ynni dŵr cynaliadwy. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys cyfraniad helaeth gan ein rhanddeiliaid, er mwyn i ni ddeall yn iawn beth yw anghenion ein cwsmeriaid, a byddwn yn ceisio eu help er mwyn datblygu gwell gwasanaeth.

Fel rhan o'r broses hon bu i ni wahodd aelodau o'n grŵp Rhanddeiliaid Ynni Dŵr, a'r cwsmeriaid hynny sydd wedi cyflwyno ceisiadau cyfredol a diweddar, i weithdy profiad cwsmeriaid ar 11 Chwefror. Bu i bymtheg o gwsmeriaid ein helpu i fapio ac adolygu'r broses yr aiff ymgeiswyr drwyddi i geisio trwyddedau at bwrpas cynlluniau ynni dŵr. Gan ddechrau ym mis Mawrth, bu i ni ddechrau defnyddio'r wybodaeth hon mewn cyfres o weithdai, gyda'n staff sy'n ymwneud ag ynni dŵr, yn ein dadansoddiad o'r ffordd yr ydym yn cyflenwi'r gwasanaeth ac yn datblygu opsiynau ynghylch sut y gallwn wella. Byddwn yn dechrau gweithredu'r datrysiadau yn ystod y 6 mis nesaf.

Bydd y gwaith hwn hefyd yn ystyried a oes yna fwy o gyfleoedd i liflinio rheoleiddio ynni dŵr micro a sut y gallwn wella rôl Rheolwyr Cyfrif yn ystod camau'r broses drwyddedu, o'r ymholiad cychwynnol i'r trafodaethau cyn ymgeisio a cheisiadau ffurfiol.

Camau Nesaf

Cydgynhyrchu parhaus â'r Grŵp Rhanddeiliaid Ynni Dŵr

Ein ffocws erbyn hyn yw cydweithio parhaus â'r grŵp rhanddeiliaid mewn ysbryd o gydgynhyrchu. Yn ystod y 3 mis nesaf bydd hyn yn cynnwys cydweithio â hwy ar ein hadolygiad o effeithlonrwydd ein proses drwyddedu, pwyso a mesur a gwella'n tystiolaeth o holl agweddau ynni dŵr a chychwyn ar raglen fonitro. Bydd y grŵp yn cyfarfod nesaf ar 1 Mai.

Datblygu cronfa dystiolaeth ar y cyd - monitro amgylcheddol.

Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda'r diwydiant ac eraill er mwyn cynyddu'n cronfa dystiolaeth o effeithiau amgylcheddol ynni dŵr a gwella rheoleiddio drwy ddull rheoli addasol. Mae'r grŵp Rhanddeiliaid Ynni Dŵr wedi cytuno bod angen rhaglen fonitro ynni dŵr effeithiol, effeithlon a gwyddonol gadarn yng Nghymru. Rydym yn y broses o ystyried y mecanwaith priodol ar gyfer dylunio a gweithredu'r rhaglen fonitro ar y cyd. Wrth wneud hynny rydym yn ystyried beth yw'r ffordd orau o gydweithio â chyrff anllywodraethol, grwpiau gwirfoddol, y byd academaidd ac eraill. Erbyn hydref 2014 byddwn yn cychwyn ar raglen fonitro gytunedig.

Adolygiad pellach o ofynion gwybodaeth ategol

Rydym yn parhau i adolygu'r wybodaeth ategol a'r arolygon sydd eu hangen arnom er mwyn cefnogi ceisiadau, ac rydym yn gweithio i sicrhau bod y ceisiadau hyn yn gymesur a'n bod yn darparu canllawiau clir sy'n egluro'n gofynion. Byddwn yn datblygu'r Canllawiau hyn mewn cydweithrediad â'n grŵp rhanddeiliaid yn ystod haf a hydref 2014.

Cefnogi dewis lleoliadau priodol

Rhagofyniad hanfodol ar gyfer defnyddio ein hadnoddau dŵr naturiol ar gyfer cynhyrchu ynni dŵr yw deall eu gallu i gefnogi ynni dŵr. Rydym yn datblygu offer sgrinio yn seiliedig ar fap, sydd ar gael gan ein Rheolwyr Cyfrif, er mwyn helpu i ddewis y safleoedd ble mae'r swm mwyaf o ddŵr ar gael. Rydym hefyd yn ymrwymedig i wella gwybodaeth map dros gyfnod o amser er mwyn helpu i ganfod y lleoliadau mwyaf priodol.

Tir a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru

Bydd rheoli'n gynaliadwy'r adnoddau naturiol a reolir yn uniongyrchol gennym yn galluogi ac yn cefnogi datblygu a buddsoddi mewn busnes arloesol, a bydd yn ein helpu i gynyddu ein hincwm er mwyn ail-fuddsoddi yn ein prif flaenoriaethau. Rydym wedi gweithio gyda datblygwyr a chymunedau er mwyn canfod cyfleoedd o ran ynni dŵr ar ystâd coetir Llywodraeth Cymru ac asedau eraill. Erbyn 2016/17 ein hamcan yw gweld o leiaf 20 o gynlluniau Ynni Dŵr ar Raddfa Fach yn cael eu hadeiladu ar dir a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Rydym yn adolygu dros 150 o gynlluniau posibl eraill, ac mae rheolwr prosiect wedi cael ei benodi ar gyfer pob un. Erbyn diwedd Mawrth 2014, byddwn wedi cyfarfod wyneb yn wyneb â phob darpar Ddatblygwr.